# Twyll ar y rhyngrwyd

Os ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae yna risg o dwyll. Mae twyllwr yn defnyddio'r rhyngrwyd fel ffordd rad a rhwydd o dwyllo pobl allan o arian. Mae'r daflen ffeithiau hon yn trafod y mathau mwyaf cyffredin o dwyll ar y rhyngrwyd (**sgiamiau**). Mae yna lawer o rai eraill. Os ydych yn amau bod e-bost neu rywbeth ar wefan yn ceisio eich twyllo, rydych fel arfer yn iawn. Os ydych chi'n tybio bod rhywbeth yn rhy dda i fod yn wir, dyma'r achos fel arfer. Darllenwch ymlaen i wybod sut i adnabod twyll ar y rhyngrwyd a'r hyn allwch wneud amdano.

**Masnachwyr twyllodrus**
Mae masnachwyr twyllodrus yn fasnachwyr anonest na ellir ymddiried ynddynt sy'n gwerthu nwyddau neu wasanaethau. Pan fod masnachwr twyllodrus yn gwerthu rhywbeth ar-lein, mae'n gyffredin y byddai'n gwneud y pethau canlynol:

- hysbysebu nwyddau sydd ddim yn bodoli
- gwneud datganiadau anghywir am y pethau y mae'n ei werthu
- gwerthu nwyddau peryglus
- peidio â dweud wrthych am gostau mewnforio neu gludo
- anfon nwyddau atoch sy'n wahanol i'r hyn a hysbysebwyd
- peidio â'u dosbarthu ar amser
- peidio â'u dosbarthu o gwbl.

Os ydych yn prynu rhywbeth ar-lein, mae'n well eich bod yn talu gyda cherdyn credyd oherwydd os bydd problem gyda'ch cynnyrch, mae'n bosib bydd y cwmni cerdyn credyd yn gyfrifol yn ogystal â'r masnachwr. Fodd bynnag, cyn i chi roi manylion eich cerdyn credyd i wefan, sicrhewch ei fod yn **safle diogel** (edrychwch am eicon sy'n debyg i glo).

Os oes gennych broblem gyda masnachwr twyllodrus, dywedwch wrth Gyswllt Defnyddwyr yn www.consumerdirect.gov.uk/complaints. Neu ewch at eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol.

**Twyll ar-lein neu 'Phishing'**
'Phishing' yw pan gewch e-byst sy'n honni eu bod yn dod o gwmni dilys. Maen nhw fel arfer yn edrych fel petai eich banc sy'n eu hanfon. Sgiam ydyw oherwydd eu bod am wybod eich gwybodaeth bersonol er mwyn twyllo. Os derbyniwch e-bost a'i fod yn gofyn i chi deipio cyfrinair neu eich manylion personol, mae'n debyg mai sgiam ydyw oherwydd ni fydd banc yn gofyn i chi wneud hyn.

I osgoi sgiamiau 'phishing', gwiriwch eich cyfrifon ar-lein yn rheolaidd – gorau po fwyaf y gwnewch hyn oherwydd byddwch yn sylwi ar broblemau yn gyflymach. Os ydych yn gwirio eich cyfriflenni banc a cherdyn credyd yn rheolaidd, fe gewch hyd i dwyll yn gyflymach.

Gallwch riportio sgiam 'phishing' i'r banc y mae'r e-bost yn honni sydd wedi ei anfon neu gallwch ei riportio i www.banksafeonline.org.uk. Gallwch hefyd anfon yr e-byst hyn nôl i'r Darparwr Gwasanaeth Rhyngrwyd (ISP) lle daethant. Anfonwch y cwyn


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

at abuse@enw'rISP, er enghraifft, abuse@yahoo.com. Yna gall yr ISP gau unrhyw gyfrif sy'n camddefnyddio ei systemau. Os ydych wedi colli arian oherwydd 'phishing', cysylltwch â'r heddlu.

**Twyll hunaniaeth**
Twyll hunaniaeth yw pan fod rhywun yn dwyn eich manylion personol i'ch twyllo allan o arian. Gall ddigwydd pan nad ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd, er enghraifft, os ydych yn colli dogfennau pwysig megis eich pasbort neu drwydded yrru. Fodd bynnag, os nad ydych yn ofalus gyda'ch manylion personol pan ydych ar-lein, gallech fod yn dioddef twyll hunaniaeth. Er enghraifft, gallai twyllwr gael gafael ar fanylion eich cerdyn credyd a'u defnyddio i brynu pethau dros y rhyngrwyd neu godi arian o'ch cyfrif. Neu gallant gael gafael ar eich cyfeiriad a'ch manylion banc a'u defnyddio i fenthyg arian.

I osgoi cael eich twyllo, byddwch yn ofalus pan ydych yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i gwmnïau ar-lein. Cyn i chi brynu neu gofrestru am rywbeth ar-lein, gwiriwch **bolisi preifatrwydd** y cwmni a gwnewch yn siŵr na fyddant yn anfon eich manylion at gwmnïau eraill os na hoffech iddynt wneud. Hefyd, byddwch yn ofalus wrth ddewis cyfrinair. Peidiwch â defnyddio geiriau llawn oherwydd bydd twyllwr yn gallu eu darganfod yn haws. Dylech ddefnyddio cyfuniad o lythrennau a rhifau.

Os ydych yn meddwl eich bod wedi cael eich twyllo, siaradwch â'r heddlu. Gallwch hefyd gofrestru gyda chynllun gwasanaeth atal twyll. Mae hyn yn golygu os ydych yn gwybod bod rhywun wedi dwyn eich manylion personol, rhoddir rhybudd ar eich cofnod cyfeirio credyd fel bod y benthyciwr yn cysylltu â chi cyn rhoi mwy o gredyd. Gwefan y cynllun hwn yw www.cifas.org.uk (dilynwch y ddolen i'r adran Cofrestru Amddiffynnol). Am fwy o wybodaeth am dwyll hunaniaeth, ewch at wefan y Swyddfa Gartref (www.identitytheft.org.uk).

**Sbam**
Mae sbam yn e-byst na ofynnwyd amdanynt sy'n cael eu hanfon at nifer fawr o gyfeiriadau. Mae llawer yn hysbysu cynhyrchion, anghyfreithlon, sgiamiau a phornograffi. Mae yn erbyn y gyfraith i anfon deunydd marchnata atoch drwy e-bost heblaw eich bod wedi cael caniatâd. Mae Swyddfa'r Comisiynwr Gwybodaeth yn monitro'r rheolau hyn. Gallwch gysylltu â nhw yn www.informationcommissioner.gov.uk. Fodd bynnag, os caiff e-byst eu hanfon o dramor, mae'n anodd gorfodi'r gyfraith.

Peidiwch byth ag agor sbam, yn enwedig os oes gan yr e-bost atodiad. Gall atodiadau gynnwys firws a fydd yn difrodi eich cyfrifiadur. Dilëwch e-bost os nad ydych yn siŵr o ble ddaeth. Peidiwch ag ymateb i ddolen mewn e-bost sbam sy'n dweud y byddant yn eich dileu o'u rhestr  bostio. Gall hyn arwain at fwy o sbam.

Peidiwch byth ag ymateb i e-byst sbam sy'n gofyn i chi gadarnhau eich enw defnyddiwr, cyfrineiriau neu fanylion banc. Peidiwch â defnyddio cysylltiadau o fewn e-bost i gael mynediad i safle cwmni. Mae'n fwy diogel i chi deipio cyfeiriad y safle ar frig y dudalen we.

Mae yna hefyd lawer o becynnau meddalwedd sy'n gallu cael gwared ar sbam.



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gallwch lawrlwtho rhai am ddim. Mae gan wefan y BBC wybodaeth ddefnyddio ynglŷn â diogelwch ar y rhyngrwyd. Gallwch hefyd ymweld â www.banksafeonline.org.uk sydd â rhestr o gynhyrchwyr meddalwedd masnachol.

**Sgiamiau loteri**
Mae sgamiau loteri yn gyffredin iawn ar y rhyngrwyd. Hyd yn oed os nad ydych wedi cymryd rhan yn y loteri, gallwch gael e-bost i ddweud eich bod wedi derbyn gwobr ond bydd yn rhaid i chi anfon arian er mwyn ei hawlio neu bydd gofyn i chi ffonio rhif premiwm sy'n ddrud iawn. Mae pob rhif premiwm yn y DU yn dechrau gyda 090. Neu bydd yn rhaid i chi anfon eich manylion banc er mwyn talu'r arian i mewn i'ch cyfrif. Peidiwch ag ymateb i'r e-byst hyn. Cysylltwch â'r heddlu.

**Cynlluniau pyramid**
Mae cynlluniau pyramid (a elwir weithiau yn gynlluniau affinedd) yn addo arian i chi am y nifer o bobl yr ydych yn eu recriwtio i ymuno â'r cynllun. Byddwch yn cael e-bost yn dweud wrthoch faint o arian allwch ei wneud. Fodd bynnag, mae'r honiadau yn gamarweiniol. Mae cynlluniau pyramid yn anghyfreithlon. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych yn colli arian.

**Trosglwyddo arian**
Mae hyn yn sgâm lle cewch gomisiwn os ydych yn derbyn arian i mewn i gyfrif banc. Yna gofynnir i chi godi arian parod a'i drosglwyddo dramor, er enghraifft, fel rhodd elusennol. Os ydych yn trosglwyddo arian fel hyn, mae'n drosedd difrifol a gallech fynd i'r carchar a chael dirwy. Nid yw elusennau dilys yn gofyn i chi drosglwyddo arian fel hyn. I wirio p'un ai bod elusen yn Lloegr neu Gymru yn ddilys, ewch at wefan y Comisiwn Elusennol www.charity-commission.gov.uk/registeredcharities. I wirio elusennau yn Yr Alban, gweler gwefan Swyddfa'r Scottish Charity Regulator at www.oscr.org.uk.

**E-byst cadwyn**

E-bost cadwyn yw e-bost sy'n gofyn i chi ei anfon ymlaen at eich cysylltiadau. Mae rhai e-byst cadwyn yn bygwth anffawd os nad ydych yn eu hanfon ymlaen. Mae eraill yn addo cyfraniad bychan i elusen os ydych yn eu hanfon ymlaen. Sgamiau yw'r e-byst hyn. Peidiwch ag anfon e-bost cadwyn ymlaen. Dylech ei ddileu cyn ei agor.

## Cymorth ychwanegol

- www.getsafeonline.org.uk yw gwefan y llywodraeth a'r sector preifat sy'n eich helpu i ddiogelu eich cyfrifiadur a defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel
- Mae gan wefan Swyddfa Masnach Deg wybodaeth am sgamiau cyfredol a'r hyn ddylech wneud: www.oft.gov.uk/Consumer/Scams <http://www.oft.gov.uk/Consumer/Scams>
- Action Fraud yw canolfan riportio twyll cenedlaethol y DU. Ewch at www.actionfraud.org.uk neu ffoniwch 0300 123 2040
- Cymdeithas masnachu sefydliadau ariannol yw APACS. Mae gan y gymdeithas wefan defnyddiol sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i ddiogelu eich cyfrifiadur a sgamiau ariannol cyfredol: www.banksafeonline.org.uk



Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- Mae gan wefan y BBC wybodaeth am breifatrwydd a diogelwch pan ydych yn defnyddio'r rhyngrwyd: www.bbc.co.uk/webwise
- Chwiliwch am fanylion eich heddlu lleol yn Lloegr a Chymru yn <http://local.direct.gov.uk ac yn Yr Alban www.scottish.police.uk
- Mae Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) yn monitro hysbysebu. Mae'n bosib bod gan gwmni sy'n defnyddio sbam i hysbysebu gwyn yn ei erbyn yn barod. Gwiriwch hyn ar wefan yr ASA yn www.asa.org.uk
- Mae yna nifer fawr o wefannau eraill sy'n rhestru sgamiau cyffredin, er enghraifft www.millersmiles.co.uk, www.ripofftipoff.net a www.scambusters.org.

**Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth**
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

**Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu**

- Gwefannau
- Prynu dros y rhyngrwyd
- Y rhyngrwyd – defnyddio deunydd pobl eraill

**Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.**

**Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 09 Gorffennaf 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.**


Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr